AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# MYNEDIAD

## GWEITHGAREDDAU 1-14



www.aocc.ac.uk

# CYNNWYS / CONTENTS

## Gweithgaredd rhif: / Activity No.:


**1** Cyfarch rhywun a holi am fanylion personol.
*Greeting someone and asking for personal details.*

**2** Holi ble mae rhywun y mynd a holi am eiddo a diddordebau.
*Asking where someone is going and inquiring about possessions and interests.*

**3** Holi am wrthrychau a'u lleoli.
*Asking about objects and locating them.*

**4** Siarad am y teulu ac oedran pobl.
*Speaking about the family and how old they are.*

**5** Siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a dysgu enwau celfi cyffredin.
*Talking about past events and learning the names of common items of furniture.*

**6** Holi am drefn diwrnod a mynegi rheidrwydd.
*Discussing the day's programme and expressing necessity.*

**7** Dysgu dilyn cyfarwyddiadau.
*Learning to follow instructions.*

**8** Disgrifio tŷ.
*Describing a house.*

**9** Siopa.
*Shopping.*

**10** Disgrifio person.
*Describing a person.*

**11** Disgrifio gwrthrychau.
*Describing objects.*

**12** Holi am ddiddordebau.
*Asking about interests.*

**13** Holi am orffennol person.
*Inquiring about someone's past.*


**14** Trafod y dyfodol yn y gweithle.
*Discussing the future at work.*

# GWEITHGAREDD 1

**Nod:** Dysgu sut i gyfarch rhywun a holi am fanylion personol.
Trosglwyddo'r wybodaeth a gasglwyd i berson arall.

## Patrymau:

| | |
|---|---|
| Dewi/Mair dw i. | Pwy dych chi? |
| | Enw'r gofalwr/tŷ yw... |
| Dw i'n byw yn... | Ble dych chi'n byw? |
| | (Ond dysgu treiglo lle mae'r dysgwr yn byw) |
| | Ble dych chi'n byw? |
| | Mae X yn byw yn... (Anwybyddu'r treiglad) |
| | O ble dych chi'n dod yn wreiddiol? |
| | Mae X yn dod yn wreiddiol o... |
| | Beth yw eich rhif ffôn? |



## Geirfa:

Rhifolion 0 - 9

# Dysgwr:

Ewch i 4 tŷ a gofynnwch y cwestiynau a awgrymir ar y daflen. Nodwch yr atebion a chyflwynwch adroddiad llafar i'ch tiwtor.

*Visit 4 houses and ask the questions suggested on this grid. Record the answers and then give your tutor an oral report of your findings.*

| Enw'r tŷ | Enw? | Byw? | Yn dod o? | Rhif ffôn?* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

* Bydd y gofalwyr yn rhoi rhif ffôn ffug er diogelwch personol.
To ensure personal safety, Museum Assistants will not give their correct telephone numbers.

# GWEITHGAREDD 2

**Nod:** Holi ble mae rhywun yn mynd. Sôn am eiddo a diddordebau.

## Patrymau:

| | |
|---|---|
| Ble dych chi'n mynd? | Dw i'n mynd i... |
| | Mae e/hi'n mynd i... |
| | Mae car/teledu 'da fi/fe/hi |
| Oes car 'da chi? | Oes |
| | Nac oes |
| | Mae diddordeb 'da fi mewn/yn... |



## Geirfa:

| | |
|---|---|
| beic (-iau) g. | = a bicycle |
| ffôn (ffonau) g. | = a telephone |
| car (ceir) g. | = a car |
| sinema (sinemâu) b. | = a cinema |
| clwb (clybiau) g. | = a club |
| tafarn (-au) b. | = a public house |
| cyfarfod (-ydd) g. | = a meeting |
| tŷ (tai) g. | = a house |
| aros i mewn | = to stay indoors |
| chwarae | = to play |
| casglu | = to collect |
| darllen | = to read |
| cerdded | = to walk |
| mynd allan/ma's | = to go out |
| ddoe | = yesterday |
| y bore 'ma | = this morning |
| heddiw | = today |
| yfory | = tomorrow |
| heno | = tonight |
| y prynhawn 'ma | = this afternoon |

# Dysgwr:

Holwch 3 pherson gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar y daflen.
Nodwch eich atebion a chyflwynwch adroddiad llafar i'ch tiwtor.

*Using the suggestions on this grid, question 3 persons, record your answers and give your tutor an oral report based on your findings:*




| Enw | Byw? | Yn dod o...? | Mynd heno...? | Diddordebau? | Diddordeb mewn...? | Car? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# GWEITHGAREDD 3

**Nod:** Dysgu holi am eiddo a'i leoli mewn ystafell yn un o'r adeiladau a ganlyn: Kennixton; Llainfadyn; Ysgol Maestir; y pre-ffab; Cilewent; Abernodwydd.

## Patrymau:




## Geirfa:

cadair (cadeiriau) b. = a chair
cwpwrdd (cypyrddau) g. = a cupboard
ci tseina (cŵn tseina) g. = a china dog
sosban (sosbenni) b. = a saucepan
cloc (-iau) g. = a clock
tegell (-au) g. = a kettle
cegin (-au) b. = a kitchen

ystafell ddosbarth (-oedd dosbarth) b. = a classroom
lolfa (lolfeydd) b. = a sitting room
ystafell wely (-oedd gwely) b. = a bedroom
parlwr (parlyrau) g. = a parlour


## Dysgwr:

*Ar y daflen gwelwch chi luniau chwe thŷ a chwe gwrthrych. Ewch i bob un o'r tai a holwch ydy un o'r gwrthrychau'n perthyn i'r tŷ hwnnw. Os ydy, gofynnwch ym mha 'stafell y mae a sicrhewch taw dyna'r gwrthrych yn y llun.*

*On the worksheet you will see 6 houses and pictures of 6 objects. Visit each of the houses and ask whether they have those objects in the house. If the reply is positive, ask in which room it is and check that the object is the one in the photograph*


- Tynnwch linell yn cysylltu'r gwrthrych â'r tŷ cywir.
- *Draw a line between the object and the house where it is located.*













# GWEITHGAREDD 4

**Nod:** Siarad am y teulu ac oed pobl.

## Patrymau:

Mae brawd/chwaer 'da fi o'r enw...
Mae e'n/hi'n byw/gweithio yn...
Mae e/hi'n briod/ddi-briod
Mae un plentyn 'da fe/hi
Mae 1,2,3 etc. o blant 'da fe/hi
Mae e/hi'n ddau ddeg pump oed.

Oes brawd/chwaer 'da chi?
Ble mae e/hi'n byw/gweithio?
Ydy e/hi'n briod?
Oes plant 'da fe/hi?
Faint ydy ei oed e/hoed hi/eu hoed nhw?



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| brawd (brodyr) g. | = a brother | plentyn (plant) g. | = a child |
| merch (-ed) b. | = a girl, a daughter | chwaer (chwiorydd) b. | = a sister |
| brawd yng nghyfraith g. | = brother-in-law | ŵyr (-ion) g. | = a grandson |
| nai (neiaint) g. | = a nephew | mab (meibion) g. | = a son |
| cefnder (-wyr) g. | = a male cousin | di-briod | = unmarried, single |
| nith (-od) b. | = a niece | priod | = married |
| cyfnither (-od) b. | = a female cousin | | |

# Dysgwr:

Holwch 5 person gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar y daflen. Nodwch y wybodaeth a gewch a rhowch adroddiad llafar i'ch tiwtor.

*Question 5 people, using the suggestions on the grid. Note your findings and then convey the information gathered to your tutor.*

| Enw | Brawd/chwaer Enw/Enwau | *Priod? *Dewiswch un/choose 1 brother/sister | Plant? | Byw? | Gweithio? | Ble? | Oed? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |


# GWEITHGAREDD 5

**Nod:** Siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol yn y person cyntaf a dysgu enwau celfi cyffredin.

## Patrymau:

| | |
|---|---|
| Es i | Aethoch chi? |
| Gwelais i | Weloch chi? |
| Siaradais i â | Siaradoch chi? |
| Arhosais i | Arhosoch chi? |

Gwelais i hen wely, hen fwrdd etc



## Geirfa:


| | | | |
|---|---|---|---|
| bwrdd (byrddau) g. | = a table | mainc (meinciau) b. | = a bench |
| cwpwrdd cornel g. | = a corner cupboard | cwpwrdd (cypyrddau) g. | = a cupboard |
| cadair (cadeiriau) b. | = a chair | silff (-oedd) b. | = a shelf |
| dresel (-au) g. | = a dresser | stôl (-ion) b. | = a stool |
| cadair freichiau b. | = an arm chair | i ddechrau | = to begin |
| gwely (-au) g. | = a bed | wedyn | = afterwards |
| crud (-iau) g. | = a cradle | nôl | = back |

pum munud - 5 minutes; deng munud - 10 minutes; chwarter awr - 1/4 hour

# Dysgwr:

Dilynwch y daith yn ôl y cynllun. Ewch i'r adeiladau a ddangosir a nodwch y ffeithiau a ganlyn:

*Follow the route indicated on the plan. Visit the buildings shown and note the following information:*





Llwybr gweithgaredd 5
*Activity path 5*

# GWEITHGAREDD 6

**Nod:** Defnyddio'r amser gorffennol i holi am drefn diwrnod person; mynegi rheidrwydd

## Patrymau:

Pryd aethoch chi adref?
Sut daethoch chi i'r gwaith?
Beth wnaethoch chi yn y bore?
Am faint o'r gloch cawsoch chi goffi?
Am hanner awr wedi deg.



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| brecwast g. | = breakfast | dod | = to come |
| swper g. | = supper | codi | = to rise, to get up |
| cinio g. | = dinner | gweithio | = to work |
| te g. | = tea | cyrraedd | = to arrive |
| cael | = to have | gwneud | = to do, to make |

# Dysgwr:

Gofynnwch y cwestiynau a ganlyn i 3 pherson a chyflwynwch adroddiad o'r atebion i'ch tiwtor.


*Ask 3 people the following questions and report your answers to your tutor (answers on sheet overleaf).*

1. Am faint o'r gloch codoch chi y bore 'ma?
2. Beth wnaethoch chi wedyn?
3. Sut daethoch chi i'r gwaith?
4. Pryd cyrhaeddoch chi'r gwaith?
5. Am faint o'r gloch cawsoch chi ginio?
6. Beth wnaethoch chi ar ôl cinio?
7. Faint o bobl ddaeth i'r tŷ?
8. Beth mae rhaid i chi (ei) wneud y prynhawn 'ma?
9. Am faint o'r gloch mae rhaid i chi gau'r tŷ?
10. Beth mae rhaid i chi (ei) wneud heno?












| Enw | Enw | Enw |
| --- | --- | --- |
| 1. | | |
| 2. | | |
| 3. | | |
| 4. | | |
| 5. | | |
| 6. | | |
| 7. | | |
| 8. | | |
| 9. | | |
| 10. | | |

# GWEITHGAREDD 7

**Nod:** Dysgu dilyn cyfarwyddiadau.

## Patrymau:




## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| de b. | = right | i'r chwith | = to the left |
| chwith g. | = left | yn syth ymlaen | = straight ahead |
| arhoswch | = stay, stop | wrth | = by, near |
| cerddwch | = walk | dw i ddim yn deall | = I don't understand |
| ewch | = go | os gwelwch yn dda | = please |
| trowch | = turn | eto | = again |
| heibio i | = past | yn araf | = slowly |
| i'r dde | = to the right | i'r dde neu i'r chwith? | = to the right or the left? |

# Dysgwr:

Dyma gynllun o barc yr Amgueddfa. Ewch i'r brif fynedfa. Trowch i'r dde ac wedyn stopiwch wrth yr ail adeilaid ar y chwith. Ar ôl cyrraedd y lleoliad cyntaf, ysgrifennwch enw'r adeilad ar y man priodol ar y cynllun ac ewch i mewn i'r adeilad i dderbyn cyfarwyddyd ble i fynd nesaf. Bydd yr ymadroddion ar ddiwedd yr eirfa'n ddefnyddiol.

*Here is a plan of the Museum grounds. Go to the main entrance. Turn right and then stop at the second building on the left. When you arrive at the first location, write down the name of the building on the appropriate place on the plan and go into the building to be instructed where to go next. The phrases in the vocabulary section will be useful.*




*After completing the task, report back to your tutor using the forms: es i...; wedyn...; ar ôl hynny...(after that); i orffen...(finally).*








## Tiwtor:


Bydd pob dysgwr yn cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig mewn amlen i'w hagor os ceir unrhyw anhawster.

# GWEITHGAREDD 8

**Nod:** Dysgu'r eirfa a'r patrymau i ddisgrifio tŷ.

## Patrymau:

Mae Llainfadyn yn fwthyn.
Ydy'r tŷ yn fach (iawn)?
Mae'r ffermdy yn eitha' mawr.
Sawl stafell sy yn y tŷ?
Mae wyth stafell yn y ffermdy.
Mae tair stafell lan lloft.
Mae pedair stafell lan lloft a thair lawr llawr.
Mae waliau'r tŷ yn wyn.



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| bwthyn (bythynnod) g. | = a cottage | yn fach iawn | = very small |
| stafell (-oedd) b. | = a room | yn fawr iawn | = very large |
| ffermdy (ffermdai) g. | = a farmhouse | coch | = red |
| tŷ teras (tai teras) g. | = a terraced house | gwyn | = white |
| pre-ffab m. | = a prefabricated house | du | = black |
| bach | = small | llwyd | = grey |
| trillawr | = three storey | glas | = blue |
| deulawr | = two storey | lan lloft | = upstairs |
| unllawr | = one storey | lawr llawr | = downstairs |
| mawr | = big, large | | |

# Dysgwr:

Bydd eich tiwtor yn eich anfon i un o'r tai a ganlyn: Kennixton, Llainfadyn, y pre-ffab; un o dai Rhyd-y-car. Eich tasg fydd disgrifio'r tŷ. Gallwch holi'r gofalwr gan ddefnyddio'r cwestiynau a nodir isod.


*Your tutor will send you to one of the following houses: Kennixton; Llainfadyn; the pre-fab; one of the houses in Rhyd-y-car. Your task is to return with a description of the house. You may ask the Museum Assistant for any information you require:*

**Sawl stafell sy yn y tŷ?**
**Sawl stafell sy lan lloft/lawr llawr?**

Nodwch y wybodaeth a gasglwyd a defnyddiwch hi i gyflwyno adroddiad i'ch tiwtor. Hefyd, holwch aelod arall o'r grŵp sy wedi bod mewn adeilad arall.

*Note the information you have gathered on the form and use it as the basis of an oral report to your tutor. Also question one of the others in the group who has visited another building.*

| Enw'r adeilad (Type) | Math (Size) | Maint | Lliw i gyd? | Sawl stafell Llawr | Lawr Lloft | Lan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |











# GWEITHGAREDD 9

**Nod:** Paratoi'r dysgwr at fynd i siopa.

## Patrymau:

Ga' i...? Cewch â chroeso
Ga i weld...?
Cewch, wrth gwrs.
Dych chi'n gwerthu...?
Beth yw'r rhain/rheina yn Gymraeg?
Faint yw'r caws?
Mae'n ddrud.
Mae'n rhad iawn



## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| caws g. | = cheese | wy (-au) g. | = an egg |
| marmalêd g. | = marmalade | ceiniog (-au) b. | = a penny |
| cyffug g. | = fudge | punt (punnoedd) b. | = a pound (£) |
| gwin (-oedd) g. | = wine | drud | = expensive |
| mêl g. | = honey | rhad | = cheap |
| halen g. | = salt | rhesymol | = reasonable |
| siocled g. | = chocolate | ar y chwith | = on the left |
| hufen iâ g. | = ice cream | ar y dde | = on the right |
| teisen (-nod) b. | = cake | yn y canol | = in the middle |
| losin ll. | = sweets | â chroeso | = you're welcome |
| tebot (-au) g. | = a teapot | wrth gwrs | = of course |

# Dysgwr:





Ewch i Gwalia Stores lle does dim ar werth mewn gwirionedd a holwch ydy'r eitemau hyn ar gael. Holwch eu pris.

*Go to Gwalia Stores (the old shop which doesn't actually sell anything) and ask whether they have the following items. Ask their price.*

Siocled ............ Marmalêd ............ Ffa pob ............ Oxo ............ Tebot ............


Nawr dywedwch wrth eich tiwtor beth brynoch chi:
*Now tell your tutor what you have bought:*



Roedd....yn y siop.
Prynais i losin.
Roedd e'n dri deg ceiniog.
Ron nhw'n ddwy bunt a deg ceiniog

Nawr ewch â'r rhestr siopa i'r siop go iawn drws nesaf a holwch ydy'r eitemau a ganlyn ar gael. Holwch eu pris.

*Now take the shopping list to the real shop next door and ask whether they stock the following items. Also ask their price:*



Cyffug ............



............



............



............



............



............



............




............

# GWEITHGAREDD 10

**Nod:** Dysgu sut i ddisgrifio golwg person.

## Patrymau:

Disgrifiwch ei wyneb.
Mae e'n dal.
Mae hi'n eitha' golau.
Ydy hi'n denau?
Mae e'n dal ac yn denau.
Roedd hi'n bryd tywyll.
Oedd e'n fyr?
Roedd gwallt syth golau 'da hi.



## Geirfa:

| | |
|---|---|
| byr | = short |
| hir | = long |
| cadarn | = stocky, sturdy |
| pryd golau | = fair complexion |
| cam | = crooked |
| pryd tywyll | = dark complexion |
| canolig ei faint | = medium sized |
| sgwâr | = square |
| crwn | = round |
| siapus | = shapely |
| cyhyrog | = muscled |
| syth | = straight |
| cyrliog | = curly |
| tal | = tall |
| eitha tal | = quite tall |
| tenau | = thin |
| golau | = fair (colour) |
| tew | = fat |
| tonnog | = wavey |
| tywyll | = dark |
| brown | = brown |
| glas | = blue |
| du | = black |
| gwyrdd | = green |

# Dysgwr:


Cyn dechrau'r dasg 'ma, disgrifiwch eich hun i aelod arall o'r grŵp a gwrandewch ar ei ddisgrifiad (disgrifiad) ohono/ohoni ei hun.
*Before undertaking this task, describe yourself to a colleague and listen to his/her description of himself /herself.*

Nawr gofynnwch i 3 pherson ddisgrifio ffrind/aelod o'r teulu a nodwch y manylion ar y matrics.
*Now ask 3 people to describe a friend/relative and note the details on the matrix.*

| Enw | Taldra/height | Maint | Pryd/Complexion | Wyneb | Trwyn | Gwallt | Llygaid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

Sut basech chi'n disgrifio'r gŵr a'r wraig sydd ar y dde?

*How would you describe the man and woman on the right?*



# GWEITHGAREDD 11

**Nod:** Dysgu sut i ddisgrifio gwrthrychau.

## Patrymau:




## Geirfa:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| bach | = small | garw | = rough | edrych (ar) | = to look at |
| mawr | = big, large | trwm | = heavy | pwyso | = to weigh |
| caled | = hard | llyfn | = smooth | teimlo | = to feel |
| meddal | = soft | ysgafn | = light | | |

# Dysgwr:

Cewch weld gwahanol wrthrychau er mwyn ichi eu disgrifio o ran golwg, teimlad a phwysau.

*You will be shown various objects and will be invited to describe their appearance, feel and weight.*









# GWEITHGAREDD 12

**Nod:** Holi pobl am eu diddordebau.

## Patrymau:

Oes diddordeb 'da chi?
Mae diddordeb 'da fi mewn...
Dw i'n hoffi/gallu...
Mae'n gas 'da fi...
Beth yw eich prif/hoff ddiddordeb?
Beth dych chi'n (ei) wneud yn eich amser hamdden?
Beth dych chi'n gallu (ei) wneud yn dda?
Does dim diddordeb 'da fi mewn...o gwbl.
Dych chi'n casglu rhywbeth?
Oes anifail anwes 'da chi?

## Geirfa:

| | | | |
|---|---|---|---|
| chwaraeon | = games, sport | adloniant g. | = entertainment |
| cerdded | = to walk, walking | canu pop | = popular singing |
| loncian | = to jog, jogging | radio b. | = radio |
| criced g. | = cricket | ffilm (-iau) b. | = film |
| nofio | = to swim, swimming | teledu g. | = television |
| hoci g. | = hockey | opera (operâu) b. | = opera |
| pêl droed b. | = football | theatr b. | = theatre |
| rygbi g. | = rugby | anifail anwes g. | = a pet |
| casglu | = to collect, collecting | aderyn (adar) g. | = a bird |
| hen gelfi | = antiques | ci (cŵn) g. | = a dog |
| llestri ll. | = dishes | cath (-od) b. | = a cat |
| stamp (-iau) g. | = a stamp | cwningen (cwningod) b. | = a rabbit |
| llyfr (-au) g. | = a book | pysgodyn (pysgod) g. | = a fish |

# Dysgwr:


Holwch dri pherson am eu diddordebau. Nodwch eu hatebion a chyflwynwch adroddiad i'ch tiwtor.

*Ask three people about their hobbies and interests. Note their replies and report them back to your tutor.*

| Enw | Diddordebau | Chwaraeon | Casglu | Cadw | Adloniant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |



Oes diddordeb 'da chi mewn pêl-droed?



Dych chi'n hoffi coginio?




# GWEITHGAREDD 13

**Nod:** Holi pobl am eu gorffennol.

## Patrymau:

Ble buoch chi'n gweithio ar ôl gadael yr ysgol?
Beth wnaethoch chi ar ôl gadael yr ysgol?
Beth fuoch chi'n (ei) wneud yno?
Ble buoch chi'n gweithio cyn dod i Sain Ffagan?
Ble roch chi'n gweithio cyn dod i Sain Ffagan?
Beth fuoch chi'n (ei) wneud yn Sain Ffagan ddoe?
Beth roch chi'n (ei) wneud ddoe?
Beth fuoch chi'n (ei) wneud neithiwr?
Beth wnaethoch chi neithiwr?
Beth roch chi'n (ei) wneud dros y gwyliau?
Ble buoch chi ar eich gwyliau y llynedd?
Ron i'n athro, saer, weithiwr ffatri, fyfyriwr etc



## Geirfa:

| | |
|---|---|
| darllen | = to read |
| gwylio'r teledu | = to watch television |
| gadael | = to leave |
| mynd i weld ffrindiau | = to visit friends |
| gweithio | = to work |
| sgwrsio | = to converse |
| athro (athrawon) g. | = a teacher |
| gweithiwr ffatri g. | = a factory worker |
| labrwr (labwyr) g. | = a labourer |


| | |
|---|---|
| nyrs (nyrsys) b. | = a nurse |
| ysgrifennydd(ion) g. | = a secretary |
| ddoe | = yesterday |
| y mis diwetha | = last month |
| echdoe | = the day before yesterday |
| y llynedd | = last year |
| neithiwr | = last night |
| yr wythnos diwetha | = last week |


# Dysgwr:


Siaradwch â 3 pherson am eu gorffennol. Nodwch eu hatebion ar y grid a chyflwynwch adroddiad i'ch tiwtor.

*Speak to three people regarding their past. Record their answers on the grid and report your findings to your tutor.*

| Enw | Ar ôl gadael yr ysgol? | Cyn dod i Sain Ffagan? | Ddoe (yn y gwaith)? Neithiwr? | Gwyliau diwetha? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |









# GWEITHGAREDD 14

**Nod:** Trafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas ag amserlen gwaith.

## Patrymau:




## Geirfa:

bwriadu = to intend
gobeithio bod = to hope to be
wythnos i ddydd Llun = a week Monday
dros y Sul = over the weekend
wythnos i yfory = a week tomorrow
dydd Sul nesa' = next Sunday
yfory = tomorrow

bore yfory = tomorrow morning
nos yfory = tomorrow night
prynhawn yfory = tomorrow afternoon
y prynhawn 'ma = this afternoon
yr wythnos nesa' = next week

Dydd Lun, Mawrth, Mercher, Iau etc.

# Dysgwr:

Siaradwch â thri gofalwr am eu hamserlen am weddill yr wythnos hon a'r wythnos nesa. Nodwch yr atebion a rhowch adroddiad i'ch tiwtor.

*Speak to three Museum Assistants about their timetable for the remainder of this week and for the next week. Note their replies and report back to your tutor.*

| Enw | Ble yfory? | Amser dechrau? | Amser gorffen? | Wythnos nesaf? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

